Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago

**Lower James Street**
**Pontarddulais**
**AbertaweSA4 8JA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o dreialon trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 197 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 137 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 34 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 12.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 14.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 43.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (categorïau A-C) | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2011 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Mai 2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/06/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bryniago yn gymuned weithgar a hapus lle mae pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni'n dda. Mae'r pennaeth wedi sefydlu arweinyddiaeth gadarn ac yn cynnig cyfeiriad clir ar draws yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn o'i hunan ac eraill. Gyda'i gilydd, mae'r pennaeth, llywodraethwyr a'r uwch arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn dda. Mae eu gwybodaeth drylwyr am y ddarpariaeth yn gryfder.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm yn effeithiol ac yn darparu profiadau dysgu diddorol a phwrpasol i ddisgyblion. Mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn fathemategwyr cymwys, yn ysgrifennu'n aeddfed at ystod o ddibenion ac yn cyflawni safonau uchel yn eu medrau gwyddonol. Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn datblygu ymwybyddiaeth gref o'u hardal leol, ac o hanes, diwylliant a phobl Cymru.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn gosod disgwyliadau uchel o'r hyn maent yn ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn barod i fwynhau ac ymgolli yn eu dysgu. Er hyn, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu sy'n aml yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth dda o'u dysgu. Ar y cyfan, mae athrawon yn adnabod cryfderau'r  disgyblion yn werthfawr ac yn eu cefnogi'n llwyddiannus i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn dangos parch aeddfed tuag at eraill. Maent yn rhyngweithio â'i gilydd yn ofalgar a chefnogol, er enghraifft trwy'r cynghorau ysgol. Mae staff yn darparu amgylchedd ysgogol sy'n sicrhau bod lles disgyblion yn cael ei gefnogi'n dda.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar draws yr ysgol ymateb i adborth athraown ac adnabod y cam nesaf yn eu dysgu

A2 Datblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion ieuengaf

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

Mae gan bennaeth Ysgol Bryniago weledigaeth gref ar gyfer darparu profiadau dysgu diddorol ac addysgu effeithiol. Mae'n angerddol at feithrin gwerthfawrogiad disgyblion at yr iaith Gymraeg, a hanes a diwylliant Cymru. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun a'r staff sy'n dylanwadu'n llwyddiannus ar y parch, cwrteisi a chyflawniad a roddir i'r disgyblion. Mae'r pennaeth, arweinwyr a'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu amgylchedd dysgu gofalgar a diddorol. Mae gweledigaeth gytûn yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu lles a dyheadau uchel ar gyfer holl gymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf at eu dysgu ac yn ymfalchïo yn yr ysgol a'u cynefin.

Mae staff yn arddel diwylliant cadarnhaol sy'n meithrin egwyddorion arwyddair yr ysgol yn dda, sef 'Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da'. Mae gan aelodau'r uwch dîm arwain gyfrifoldebau clir ac maent yn gweithredu eu rolau'n fwriadus, er enghraifft wrth gydweithio â'r awdurdod lleol i gyflwyno dulliau rheoli ymddygiad. Er hynny, nid yw rôl yr arweinwyr canol wedi ei datblygu'n llawn, sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithredu'n gynyddol effeithiol ar eu cyfrifoldebau ehangach.

Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso cynhwysfawr a chadarn ar gyfer monitro a gwella'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Maent yn casglu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithlon i nodi'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar ddatblygu medrau a chodi safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn cysylltu dysgu proffesiynol â blaenoriaethau'r ysgol a rhai cenedlaethol, ac anghenion unigol staff, yn werthfawr. Mae arweinwyr yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth, ac o ganlyniad, mae staff yn datblygu eu dulliau addysgu i fod yn fwy cyson ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae staff wedi canolbwyntio ar gryfhau'r ddarpariaeth darllen yn y ddwy iaith er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae'r hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau a mwynhad disgyblion at ddarllen ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dangos dealltwriaeth dda o gerddi Cymraeg ac yn trafod eu cynnwys yn hyderus.

Mae staff yn darparu cwricwlwm perthnasol sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol ac yn herio'r disgyblion i wneud cynnydd da. Mae athrawon 'Bryniago Mawr' yn annog disgyblion i gyfrannu at eu dysgu ac yn cynnwys eu hawgrymiadau wrth gynllunio 'bwydlen' ar gyfer themâu newydd. Mae hyn yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn rhoi cyfle iddynt ddewis yr hyn maent am ei ddysgu yn effeithiol. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn ddylanwadu ar fywyd ehangach yr ysgol trwy gyfrannu at gynghorau 'llais y disgybl', a chyfranogi mewn prosiectau sy'n cael effaith uniongyrchol ar yr ysgol. Er enghraifft, cydweithiodd  y cyngor ysgol mewn partneriaeth ag adran arlwyo'r sir i addasu bwydlen cinio ysgolion ar draws y sir. Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n effeithiol, er enghraifft wrth drafod pwysigrwydd bwyta'n iach. Yn ogystal, mae'r Criw Cymreictod wedi creu fideo ar y cyd ag ysgolion chlwstwr Gŵyr i greu sianel ar wefan gymdeithasol sy'n hybu agweddau o ddiddordeb i ieuenctid Cymru yn y Gymraeg.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae’r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd i ysgrifennu mewn cyd-destunau diddorol ac yn defnyddio, er enghraifft, eu rhestri siopa yn fwriadus i brynu blodau o liwiau gwahanol yn y siop arddio. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig yn dda, fel wrth gyflwyno gwybodaeth ddiddorol am enwogion Cymru megis O.M. Edwards. Ym ‘Mryniago Mawr’, mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol sy’n sbarduno’r disgyblion i ysgrifennu’n fedrus yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth lunio erthygl papur newydd am losgfynydd ac adroddiad am hanes Pontarddulais.

Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae disgyblion yn dangos medrau meddwl aeddfed, er enghraifft wrth ymchwilio i’r cwestiwn, ‘A yw pellter meteorit yn effeithio ar led crater?’. Nodwedd arbennig o’r ddarpariaeth yw’r modd mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau gwyddonol. Mae hyn yn ei dro yn meithrin diddordeb a chymhelliant y disgyblion yn y maes hwn yn hynod effeithiol.

Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau mathemategol da a’u cymhwyso mewn cyd-destunau pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dangos dealltwriaeth gynnar o rif, er enghraifft wrth chwarae gêm dal pysgod. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen cloc digidol a chloc analog, gan ddefnyddio geirfa berthnasol yn gywir. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol effeithiol ac yn eu defnyddio’n feistrolgar i gasglu data a chreu graffiau yn seiliedig ar ymchwiliadau gwyddonol.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn cofrestru’n annibynnol yn y bore ac yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei gyflawni mewn gweithgareddau sydd wedi eu trefnu gan staff. Wrth iddynt ddatblygu drwy ‘Bryniago Bach’, mae llawer yn adeiladu’n briodol ar eu medrau. Er hyn, mae tueddiad i staff ddarparu gormod o arweiniad i ddisgyblion, sy’n cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau dros eu dysgu. Mae athrawon ‘Bryniago Mawr’ yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, gan eu hannog i wneud penderfyniadau dros y dull o gofnodi a chyflwyno eu gwaith. O ganlyniad, maent yn dangos brwdfrydedd heintus a dealltwriaeth gadarn o’u dysgu. Mae eu hadnabyddiaeth o leoliadau adnabyddus a dylanwadol yr ardal yn enghraifft dda o hyn.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio gweithgareddau sy’n cael eu ddarparu i ddiwallu anghenion y disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu pwrpasol sy’n cefnogi’r disgyblion i adnabod y cryfderau a’r meysydd i’w gwella yn eu dysgu. Maent yn defnyddio dulliau addas i roi adborth a phennu targedau gwella i ddisgyblion; fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei weithredu’n gyson ar draws yr ysgol. Mae trefniadau asesu cynnydd disgyblion yn gadarn, ac o ganlyniad, mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o gyflawniad disgyblion. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos ag ysgolion y clwstwr gan rannu arferion addysgu a dysgu effeithiol. Mae'r cydweithio hwn yn caniatáu i athrawon ddatblygu dealltwriaeth gytûn o gynnydd disgyblion, gan eu helpu i sicrhau dull cyson a chadarn o asesu ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn darparu cymorth pwrpasol o ansawdd uchel i ddisgyblion ag ADY. Mae arweinyddion ADY yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei theilwra i'w hanghenion personol. Mae cynlluniau dysgu unigol yn amlinellu’n glir anghenion dysgu’r disgyblion sy’n cyfrannu at allu’r

athrawon i gefnogi a chynllunio’n fwriadus ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar les corfforol ac emosiynol disgyblion. Mae gweithgareddau fel ‘milltir meddwl’ a sesiynau corfforol penodol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at les ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dulliau da i reoli eu hemosiynau. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a chyfoethog i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig. Maent yn dathlu gwahaniaethau o fewn cymdeithas yn ystod gwasanaethau wythnosol a myfyrdod dyddiol yn hynod effeithiol. Mae hyn yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae gan athrawon a’r staff ategol ddisgwyliadau uchel o ran parch a moesau. Mae’r disgyblion yn ymateb yn dda i ddisgwyliadau uchel staff ac yn arddangos caredigrwydd a chwrteisi at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae ganddynt agweddau da at ddysgu, gan wrando’n gydwybodol ar gyfarwyddiadau staff tra’n parchu cyfraniadau ei gilydd.

Mae’r corff llywodraethol yn wybodus ac yn weithgar yn ei rôl i fonitro a gwella perfformiad yr ysgol. Maent yn defnyddio dull perthnasol i werthuso a gosod blaenoriaethau yn effeithiol, sydd hefyd yn sicrhau eu bod yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri unrhyw pryderon.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/08/2024